Prifysgol Abertawe
Swansea University

## BETH WNAETHOM NI...

Mae Academi Hywel Teifi, Prifysgol Abertawe wedi lansio diweddariad ar ei ap Gofalu Trwy'r Gymraeg. Mae'r ap, sy'n cefnogi gweithwyr iechyd a gofal i ddefnyddio'r Gymraeg wrth eu gwaith, wedi bod mor llwyddiannus nes bod fersiwn newydd, llawnach wedi'i greu, diolch i nawdd pellach gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

"Mae'r diweddariad hwn yn gyfle i sicrhau profiadau dysgu gwell i'r defnyddwyr. Adeiladwyd yr ap gwreiddiol bron i bum mlynedd yn ôl, felly mae hwn yn gyfle i ni adnewyddu'r ap â gwedd gyfoes a modern.

Mae adrannau ychwanegol o derminoleg ac ymadroddion sy'n benodol ar gyfer meddygon, ymwelwyr iechyd, gweithwyr gofal a ffisiotherapyddion wedi'u creu, gyda'r ynganiadau'n cael eu llefaru unwaith eto gan Nia Parry, y tiwtor iaith a'r gyflwynwraig deledu, sy'n gyn-fyfyriwr Prifysgol Abertawe"

Lynsey Thomas

**Academi Hywel Teifi**